# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Mehefin 2021 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**:

Mark Brace, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Adam Hill, Cyngor Abertawe
David Hopkins, Cyngor Abertawe
Trudi Meyrick, Heddlu De Cymru
Hamish Osborn, Cyfoeth Naturiol Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Nuria Zolle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Aelod Annibynnol)

**Hefyd yn bresennol:**
Geoff Bacon, Cyngor Abertawe
James Colthart, Grŵp Coreus
Russell De'Ath, Cyfoeth Naturiol Cymru
Neil Farquhar, Austin-Smith:Lord
Helen Grey, Cyfoeth Naturiol Cymru
Becky Jones, Cyngor Abertawe
Steve King, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Philip McDonnell, Fforwm Amgylcheddol Abertawe
Rhian Millar, Cyngor Abertawe
Suzy Richards, Cyngor Abertawe
Paul Thomas, Cyngor Abertawe
Lee Wenham, Cyngor Abertawe
Jane Whitmore, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Andrea Lewis, Cyngor Abertawe
Phil Roberts, Cyngor Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd Andrea Lewis, Cyngor Abertawe yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

**2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** y dylid ethol Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

**Roger Thomas, Is-gadeirydd fu'n Llywyddu**

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

**4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2021 fel cofnod cywir.

**5 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.**

**Cytunwyd** y dylid nodi'r camau gweithredu.

**6 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**7 Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol.**

Rhoddodd Russell De'Ath, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Helen Grey, gyflwyniad ar yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

Esboniodd fod SoNaRR 2020 yn asesiad ynghylch i ba raddau yr oedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni.

Roedd yr adroddiad yn darparu asesiad ar ba mor llwyddiannus yr oedd Cymru'n mynd i'r afael â phedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Roedd yn rhannu Cymru'n 8 ecosystem eang ac yn asesu cyflwr pob ecosystem yn ei thro. Yna, roedd yn ystyried y pwysau trawsbynciol a wynebir gan yr ecosystemau hyn:

- Newid yn yr hinsawdd
- Newid defnydd tir
- Llygredd
- Gor-ecsbloetio
- Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol

Roedd hefyd yn mynd i'r afael â'n hôl troed tramor.

Amlinellodd y 4 cwestiwn a ddefnyddiwyd i gael y data a ddefnyddiwyd tuag at yr asesiad:

- Fframio'r cwestiynau - Nod 1 – A yw stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella?

- Fframio'r cwestiynau – Nod 2 – A yw ecosystemau'n gallu gwrthsefyll newid disgwyliedig ac anrhagweladwy?
- Fframio'r cwestiynau – Nod 3 – A oes gennym leoedd iach i bobl sy'n cael eu hamddiffyn rhag risgiau amgylcheddol?
- Fframio'r cwestiynau – Nod 4 – A oes gennym economi adfywiol sy'n cyflawni lefelau cynaliadwy o gynhyrchu a defnyddio?

Y casgliad oedd nad oedd Cymru ar hyn o bryd yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ôl SoNaRR2020, fel y nodir yn y 4 nod canlynol:

1. stociau sefydlog o adnoddau naturiol,
2. ecosystemau cadarn,
3. lleoedd iach i bobl, sy'n rhydd o risgiau amgylcheddol
4. economi adfywiol.

Cynigiodd yr adroddiad fod angen i Gymru ddilyn ymagwedd systemau at fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol. Er mwyn gwneud defnydd Cymru o adnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy, roedd angen newid trawsnewidiol ar gyfer pethau fel y systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth. Er nad y tair system hynny oedd yr unig rai a oedd yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd, roeddent yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r effeithiau, felly roedd yn lle da i ddechrau ymagwedd systemau.

Dywedodd y gallai CNC gefnogi datblygiad Asesiadau Lles drwy ddeall arwyddocâd yr argyfyngau Hinsawdd a Natur a'u heffeithiau posib ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae CNC yn argymell bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio fframio Adroddiad SoNaR (4 nod).

Yn ogystal, gallai'r fframwaith 'tri gorwel' (three horizons) helpu pobl i feddwl a chynllunio ar gyfer y tymor hwy. Gellid dylunio'r pecyn cymorth ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ac y mae angen iddynt ystyried y dyfodol a chenedlaethau'r dyfodol, fel cyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd â dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yn galluogi sefydliadau i feddwl am sut a pham nad oedd y ffordd y caiff pethau eu gwneud ar hyn o bryd yn addas i'r diben, ym mha ffyrdd y gallai tueddiadau sy'n dod i'r amlwg lywio'r dyfodol, sut y dylai dyfodol delfrydol edrych a'r mathau o gamau gweledigaethol sydd eu hangen i ddod yn agosach at y dyfodol hwnnw.

Gallai CNC helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall arwyddocâd Argyfyngau Hinsawdd a Natur a'u heffeithiau posib ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy:

- Rannu canfyddiadau eu hadroddiad SoNaRR.
- Fframio'r cwestiynau i helpu'r asesiadau o les lleol drwy'r 4 nod a ddefnyddir yn SoNaRR.
- Gweithio drwy Ddatganiadau Ardal i gyflawni canlyniadau llesiant sy'n cefnogi newid trawsnewidiol.
- Cynnig cynnal gweithdy "Tri Gorwel", i edrych ar ein heriau amgylcheddol drwy lens cymdeithasol.

Gellid dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar wefan CNC:
[Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020]

Dylid ystyried y 4 nod wrth drafod cyfeiriad y BGC yn y dyfodol yn ei rôl fel Dinas er Lles.

**Penderfynwyd** nodi'r cyflwyniad.

## 8 Dinas Hawliau Dynol.

Rhoddodd Lee Wenham, gyda chefnogaeth Rhian Millar, Cyngor Abertawe, adroddiad er mwyn i'r Cydbwyllgor ailgadarnhau ymrwymiad, nodi adnoddau a chytuno ar y broses i gefnogi uchelgais Abertawe i ddod yn ddinas Hawliau Dynol.

Er bod y partneriaid yn parhau i gefnogi'r cynigion, nodwyd bod hwn yn ymrwymiad enfawr yr oedd angen ei adolygu'n barhaus o ran y mewnbynnau gofynnol a'r ymrwymiad amser dan sylw.

**Cytunwyd** y dylai Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ailgadarnhau ei ymrwymiad i Abertawe ddod yn Ddinas Hawliau Dynol drwy:

- Ofyn i bob aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lofnodi'r datganiad o uchelgais i fod yn Ddinas Hawliau Dynol;
- Cytuno i greu corff newydd i oruchwylio'r daith;
- Ymrwymo uwch adnodd i arwain ar hawliau dynol yn eich sefydliad a bod yn rhan o'r grŵp llywodraethu newydd i lywio ein taith (enwau i'w e-bostio at Lee Wenham);
- Cytuno i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu dull Gweithredu Dinas Hawliau Dynol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 9 Papur Trafod - Ffocws a Chyflenwi 2021/22.

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Cynaliadwy gynigion i ysgogi trafodaeth ar gyfer ffocws a chyflawniad y BGC mewn ymateb i'r pandemig ar gyfer 2021/22.

Er y byddai'r 4 ffrwd waith yn parhau, byddent yn canolbwyntio ar:

- Hawliau dynol;
- Diwylliant Cymunedol;
- Iechyd Meddwl;
- Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt.

Nodwyd y dylid cynnal trafodaethau gyda Bwrdd y Rhaglen Ranbarthol o ran yr eitem Iechyd Meddwl er mwyn osgoi dyblygu.

**Cytunwyd**:

1) Y bydd partneriaid yn ymdrin â meysydd o ddiddordeb sy'n gorgyffwrdd ar gyfer cyflwyno â ffocws i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag adferiad Abertawe o effeithiau'r pandemig yn 2021/22 a'i chynorthwyo.
2) Y bydd partneriaid yn nodi Arweinwyr Strategol ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith os cânt eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.

## 10 Adolygiadau Dynladdiadau Domestig.

Darparodd Paul Thomas a Jane Whitmore, Cyngor Abertawe, adroddiad i dynnu sylw at y Broses Adolygu Lladdiadau Domestig yn Abertawe.

**Cytunwyd** bod y Cyd-bwyllgor yn cefnogi'r dull cyffredinol a'r cynnydd a gynigir yn yr adroddiad.

## 11 Grwp Digwyddiadau Tyngedfennol - Ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Darparodd Paul Thomas, Cyngor Abertawe adroddiad i ystyried sefydlu Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol (GDT) i edrych ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Abertawe ar ôl COVID.

Nodwyd y dylai'r dyddiad ym mharagraff 1.2 ddarllen 20 Mai 2021.

Dywedodd Adam Hill ei bod yn bwysig nodi y byddai'r Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol hwn, pe bai'n cael ei ffurfio, yn edrych ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar draws Abertawe gyfan, nid yn unig mewn perthynas â digwyddiad Mayhill. Byddai'r GDT yn gyfyngedig o ran amser i 18 mis yn unig – tua 6 chyfarfod.

**Cytunwyd:**

1) Y bydd y BGC yn cefnogi'r dull cyffredinol a'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad;
2) Y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ynghylch pwy fydd yn Cadeirio'r Grŵp ac yn darparu cymorth ysgrifenyddol.

## 12 Bwrdd Eiddo Lleol. (Cyflwyniad)

Rhoddodd Geoff Bacon, Cadeirydd y Bwrdd Eiddo Lleol, gyda chefnogaeth Hannah Thomas a Becky Jones, Cyngor Abertawe, a James Colthart a Neil Farquhar o'r Tîm Amlddisgyblaethol (TA), gyflwyniad mewn perthynas â Chanolfan Gymunedol gydweithredol Canol y Ddinas (hen adeilad BHS) a fyddai'n ffurfio canolfan gyflogadwyedd ac yn cysylltu pob sector cyhoeddus.

Amlinellodd Hannah Thomas yr ymgysylltu a wnaed â rhanddeiliaid mewnol ac allanol hyd yma mewn perthynas â'r nifer sy'n manteisio ar yr adeilad drwy brydles neu aelodaeth. Amlinellodd flas o wasanaethau mewnol rheng flaen sy'n cynnwys y Llyfrgell Ganolog, Archifau, Hanes Teuluol, Opsiynau Tai, prosiectau Cyflogadwyedd, y Ganolfan Gyswllt, Cyllid a Budd-daliadau a'r gwasanaethau Dysgu

Gydol Oes, gyda thrafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal mewn perthynas â gofynion unigol.

Cynhaliwyd trafodaethau allanol gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, Gyrfa Cymru, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA), Cyngor ar Bopeth, yr Heddlu, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Canolfan Gofalwyr Abertawe, Prifysgolion a Choleg Gŵyr Abertawe ac Iechyd. Byddai angen ymrwymiad cadarn gan randdeiliaid allanol wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Rhoddodd James Colthart, arweinydd prosiect y Tîm Amlddisgyblaethol, yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen a gynhaliwyd dros y 6-8 wythnos diwethaf:

Mae Cam 1 newydd gael ei gwblhau, a oedd yn cynnwys datblygu'r brîff ac adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan y tîm. Fel y nodwyd, mae hynny wedi bod yn ymgysylltiad cadarnhaol iawn â rhanddeiliaid gyda llawer o synergeddau rhwng darparwyr gwasanaethau, yn fewnol ac yn allanol.

Roedd Cam 2 newydd ddechrau a byddai mwy o'r gwaith dylunio yn mynd rhagddo, gan edrych ar y trefniant gofodol a'r cynlluniau adeiladu. Y gobaith oedd dechrau caffael contractwyr yn ddiweddarach eleni.

O ran dechrau'r gwaith ar y safle, byddai hyn yn debygol o gael ei rannu'n ddau gam:

Byddai'r pecyn gwaith galluogi yn cynnwys cael gwared ar yr asbestos a'r hen systemau, y byddai angen cael gwared arnynt cyn dechrau ar y prif waith a fyddai'n dechrau ar ddechrau 2022.

Byddai'r prif waith, gan gynnwys gwneud yr adeilad yn addas i'w ddefnyddio, yn dechrau ym mis Mawrth 2022 a bwriedir i'r gwaith gael ei gwblhau o ddiwedd mis Medi tan ddiwedd y flwyddyn honno.

Darparodd Neil Farquhar ddelweddau amrywiol o'r adeilad ar ei ffurf bresennol, yn fewnol ac yn allanol. Dywedodd fod nifer o heriau mewn perthynas â'r adeilad, megis y to yr oedd angen ei atgyweirio'n sylweddol a bod y gwasanaethau presennol ar ddiwedd eu hoes naturiol. Byddai'r rhain yn cael eu diweddaru yn ogystal â ffabrig yr adeilad i wella effeithlonrwydd ynni a chymwysterau cynaliadwy'r prosiect.

Byddai'r Penseiri'n cael gwybodaeth gan y rhanddeiliaid am drefn y llety, trefniadau arbennig i gynllunio sut y byddent i gyd yn ffitio yn yr adeilad er mwyn rhoi cymaint o amlygrwydd â phosib i bob maes gwasanaeth.

O ran defnyddio safonau enghreifftiol megis cynllun ardystio Safon Adeiladu WELL, cadarnhaodd Geoff Bacon y byddem yn gweithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol, gan edrych ar bob llinyn a lefel gynaliadwyedd gwahanol, a fyddai'n cynnwys y cynllun ardystio WELL yn y cyfyngiadau ar y gyllideb sydd ar gael. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru, sy'n ystyried hyn yn gam pwysig tuag at adfywio Canol y Ddinas.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Cytunwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

**13 Asesiad o Lesiant Lleol 2022: Cydweithrediad Rhanbarthol a Diweddariad Lleol**

Cyflwynodd Steve King, Cyngor Abertawe adroddiad i nodi datblygiadau diweddar wrth baratoi ar gyfer yr Asesiad o Les Lleol nesaf ar gyfer 2022.

**Cytunwyd n**odi'r adroddiad.

**14 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. (Llafar)**

Adroddodd Adam Hill, Cyngor Abertawe fod yr Adroddiad Blynyddol wrthi'n cael ei gwblhau'r wythnos honno ac y byddai'n cael ei ddosbarthu i bartneriaid ar 25 Mehefin i'w wirio'n derfynol. Gofynnodd am lunio'r adroddiad yn gyflym fel y gellid anfon y fersiwn derfynol i'w chyfieithu'n Gymraeg er mwyn bodloni'r dyddiad cau ar ddiwedd mis Gorffennaf.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

**15 Pynciau a Chynhadledd Cyfarfod y Fforwm Partneriaeth. (Llafar)**

Gofynnodd Adam Hill, Cyngor Abertawe a hoffai unrhyw bartner â sgiliau trefnu da mewn cyd-gynhyrchu ymuno â'r Grŵp Tasg a Gorffen Cydlynu ar gyfer y Fforwm Partneriaeth.

**Cytunwyd** y dylid anfon enwau at Adam Hill / Leanne Ahern.

**16 Grant Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.**

Er gwybodaeth.

**17 Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.**

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer cyfarfodydd mis Hydref a mis Rhagfyr ac anogodd bartneriaid eraill i ystyried darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu sefydliad / pwnc penodol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.13 pm

**Cadeirydd**